



# Helpu Gartref gyda Sillafu






# Cynorthwyo Gartref Gyda Sillafu

Canllawiau ar gyfer helpu plant i wella eu sillafu

Gall sillafu gwael gael effaith ehangach na jyst gwneud i waith edrych yn afler. Yn yr un ffordd a gall darllenydd gwael osgoi print byddai sillafwr gwael yn amharod i ysgrifennu. Mae rhai plant yn ceisio cuddio sillafu gwael gydag ysgrifennu afler. Bydd llawer wedi cael y neges i beidio poeni am eu sillafu ond iddynt ysgrifennu beth maent eisiau ei ddweud. Er bod rhywfaint o gyfiawnhad yn hyn mae rhywfaint o gymysgedd rhwng peidio poeni gyda sillafu a pheidio malio dim amdano yn bosib. Mae'n bwysig nad yw'r sillafwr gwael yn poeni ond mae yr un mor bwysig ei fod ef/hi yn ceisio gwella.



## Camgymeriadau

Mae llawer math gwahanol o wallau sillafu. Troi llythyren o chwith (cymysgu 'd' a 'b' efallai); clywed y gair yn anghywir (ysgrifennu 'braffu' yn lle 'brathu'); cymysgu geiriau sydd yn swnio'n debyg (yw/i'w). Os yw'r plentyn yn gwneud un o'r camgymeriadau cyffredin hyn yn rheolaidd yna gellir ymdrechu i'w cywiro wrth ddewis y grŵp o eiriau sydd i'w ddysgu.

## Adeiladu Geiriau

Mae'n hanfodol bod y plentyn yn adnabod y seiniau a wneir gan holl lythrennau'r wyddor a rhai blendiau o gytseiniaid a'i fod yn medru defnyddio'r wybodaeth hon i adeiladu geiriau wrth sillafu.

## Strategaeth "TRANDEP"

Ar y cychwyn mae'n syniad da i gyfyngu adeiladu geiriau i saith lythyren yn unig: "trandep". Dylai blant allu meistroli'r rhain heb y pwysau ychwanegol o gofio a defnyddio'r holl wyddor. Unwaith bod blendio gyda'r saith lythyren yma yn dod yn hollol awtomatig gallwch ychwanegu'r llythrennau "myc". Dylai'r sgiliau gael eu trosglwyddo a'u hymestyn i lythrennau eraill yr wyddor mewn amser.

## Dewis Geiriau i'w Dysgu

Mae cymorth positif gyda sillafu gartref yn gorfod cychwyn gyda dewis pa eiriau i ganolbwyntio arnynt. Dyma rai awgrymiadau:

- Os yw'r plentyn yn derbyn cymorth gyda sillafu yn yr ysgol, byddai unrhyw atgyfnerthu o'r geiriau a ddysgwyd yn yr ysgol o werth mawr.
- Camgymeriadau sillafu o gywiriadau'r athro mewn gwaith ysgol.
- Ar ddiwedd yr arweiniad hwn mae rhestr o'r geiriau mwyaf cyffredin a ddefnyddir mewn deunydd darllen. Mae'r gallu i sillafu'r geiriau yma felly'n bwysig iawn.


## Rhestrau Sillafu

Nid yw rhoi rhestr o eiriau i blentyn i'w ddysgu yn ddigon. Gall rhiant ofyn "Sut mae sillafu 'buwch'?" Gallai'r plentyn ateb 'b-u-w-ch'. Mae ymennydd y plentyn yn dysgu sut i sillafu ond nid yw ei law. Y diwrnod canlynol, mewn prawf sillafu, mae'n bosib y bydd yn medru ysgrifennu 'buwch' yn gywir, ond nes ymlaen pan mae'n ysgrifennu brawddeg mae ei ymennydd yn meddwl am y frawddeg ac nid am y gair, ac fe all ei sillafu'n anghywir. Wrth fod plentyn yn dysgu llefaru ei sillafu dylai hefyd ddysgu eu hysgrifennu.

## Technegau ar Gyfer Dysgu Sillafu

Mae'n wirioneddol bwysig bod plant yn teimlo'n bositif a'u bod yn gallu dysgu sillafiadau - yn enwedig os yw teimladau negatif eisoes wedi cychwyn cael eu cysylltu trwy fethiant blaenorol. Gall hyn arwain at gylchred negatif o ofni methiant ac felly methu (diymadferthedd wedi'i ddysgu/learned helplessness).

Mae'r wybodaeth isod yn dod o dechneg ar gyfer plant ac oedolion fel ei gilydd. Ffocws canolog y dull yw bod y dysgwr yn creu teimlad da o fewn eu hunain ac yn defnyddio'r teimlad positif hwn i alluogi'r dysgu mwyaf sydd bosib. Mae'r dechneg hefyd yn un gweledol iawn sydd yn tueddu siwtio pobl sydd â dyslecsia yn benodol.



## Sillafu Hudol

- Printiwch y gair yn daclus ar ddarn o bapur gyda llythrennau bach yn hytrach na phrif lythrennau.
- Anogwch y plentyn i ddal teimlad da trwy dwyn i gof profiad da - gellir gwneud hyn i fyny ond mae hyn yn gam pwysig fel bod teimlad da yn bresennol drwy'r cyfan felly gofynnwch "ydy'r teimlad da dal gen ti?"
- Daliwch y gair i fyny a'i symud at eu chwith hwy (eich de chi). Mae'n rhaid bod y llygaid/pen symud ar i fyny. (Gall fod adegau anghyffredin a phrin pan fydd y gwrthwyneb yn digwydd a bydd angen i'r plentyn storio'r darlun gan edrych i fyny i'r ochr dde).
- Mae'n rhaid i'r plentyn edrych ar y gair yn ofalus - gyda'r teimlad da yn bresennol - a sylwi ar yr holl lythrennau a'r drefn gywir. Treuliwch amser yn adeiladu darlun cywir yn llygad y meddwl, gan roi sylw arbennig i ardaloedd ble all drefn llythrennau achosi problemau.
- Trowch y gair i'w guddio a gofynnwch iddynt i barhau i ddarlunio'r gair yn eu meddwl.
- Dangoswch y gair ar gyfer gwirio eu darluniau i weld os ydynt yn cyfateb.
- Trowch y gair i'w guddio tra bod y plentyn yn ei ysgrifennu - anogwch hwy i barhau i edrych i fyny tua'r chwith, lle mae'r gair wedi'i 'storio', i wirio eu darlun.
- Gwiriwch fod y sillafu yn gywir gyda'r gair yn dangos. (Os yw'r gair yn anghywir mae'n bwysig iawn bod y plentyn yn cael gwared â'r darlun anghywir yn gorfforol ac yn feddyliol ac yna'n ail adrodd y broses fel y darlun cywir o'r gair yn cael ei storio.)
- Trowch y gair i'w guddio tra bod y plentyn yn rhoi'r sillafu ar lafar.
- Darganfyddwch os yw'r plentyn yn gallu sillafu'r gair ar ei ôl ar lafar hefyd - os ydynt wedi storio darlun da a chryf gyda'u teimlad da fe ddylent allu wneud y cam hwn ac yn gallu teimlo eu bod wedi'i rymuso gan y sgil newydd hon!



## Techneg edrych, dweud, gorchuddio, ysgrifennu, gwirio

- Edrychwch yn ofalus ar y gair — sylwch ar y llythyren gyntaf ac olaf, siâp y gair, unrhyw batrymau llythrennau neu eiriau llai o fewn y gair ac ati.
- Dargopiwch y gair ar y bwrdd gyda'ch bys i edrych arno
- Dywedwch y gair er mwyn gallu clywed e (yn uchel neu'n dawel)
- Gorchuddiwch y gair
- Ysgrifennwch y gair ar ddarn o bapur / mewn llyfr sillafu*
- Gwiriwch y gair
- Ysgrifennwch y gair mewn brawddeg

* i wneud yr elfen ysgrifennu'n fwy o hwyl - ac felly'n fwy cofiadwy - gallwch ei beintio neu ddefnyddio sialc neu dŵr mewn poteli chwistrellu ar y llawr tu allan.

Gyda'r dechneg hon rydych yn defnyddio cymaint o lwybrau at y cof ag sydd bosib - gweledol, clywedol, symudiad cyhyrau (cinesthetig). Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer disgyblion gyda dyslecsia a gall dargopio'r gair ar wyneb gweadedd fod yn fuddiol i rai e.e. papur tywod neu felfed.

Gyda'r ddwy dechneg yma mae ysgrifennu'r gair mewn brawddeg yn ogystal ag ar ei ben ei hun yn bwysig. Mae'n rhaid i'r gair newydd ddod yn rhan o batrwm o eiriau fydd y llaw yn eu hysgrifennu'n gywir heb orfod stopio a meddwl. Po fwyaf yr ydych yn ysgrifennu gair po fwyaf yw'r siawns i chi i'w gofio'n gywir.

## Grwpio Geiriau

Gellir defnyddio rhestrau o 5-10 o eiriau fel arfer ond bydd hyn yn dibynnu ar y plentyn – mae'n well i ganolbwyntio ar ddysgu sut i sillafu a chofio 3-5 o eiriau ar un pryd yn dda iawn na rhestr o 5-10 sydd yn cael eu cofio'n llai cadarnhaol. Wrth wneud rhestr mae'n well grwpio geiriau gyda'r un math o batrymau llythrennau gyda'i gilydd yn hytrach na geiriau gyda'r un synau. Felly buaswn yn grwpio gyda'i gilydd:

| | | |
|---|---|---|
| mae | | saith |
| llaeth | ond nid | llaeth |
| cael | | taith |

## Rheolau Sillafu

Yn gyffredinol, gall reolau sillafu drysu sillafwr gwael. Os yw'ch plentyn yn cael trafferth efo sillafu Saesneg, gweler yr ochr Saesneg ar gyfer awgrymiadau ar reolau a chofeiriau a.y.b. Mae gwybodaeth ddefnyddiol hefyd i'w gael ar y ŵe.

## Chwaraeon

Mae chwaraeon sy'n atgyfnerthu sillafu mewn ffordd hwyliog (Sgrabl/Bingo geiriau a.y.b.) o werth mawr oherwydd bod plant yn llai tebygol o feddwl amdanynt fel gwaith ac yn fwy tebygol o gael agwedd bositif tuag atynt o ganlyniad. Mae llawer o chwaraeon ar gyfer dysgu ar y rhyngrwyd.



**Gemau pensel a phapur:-**

- Newid geiriau: allwch chi newid 'het' i 'pan' mewn tri cham yn unig, un llythyren ar y tro? e.e. het-hen-pen-pan.
- Darganfod geiriau: faint o eiriau welwch chi yn 'Aberystwyth' ? - aber, bar, wyth, wy, a.y.b.
- Llunio brawddegau: defnyddiwch bac o gardiau gyda'r geiriau mae'r plentyn yn dysgu eu sillafu wedi ysgrifennu arnynt. Mae pob chwaraewr yn cael pedwar cerdyn a rhaid llunio brawddeg sydd yn cynnwys y pedwar gair. Y frawddeg orau sydd yn ennill.

## Crynodeb

- Gwnewch yn sicr bod y plentyn yn gwybod y synau a wneir gan lythrennau'r wyddor a thrwy rhai cyfuniadau o gytseiniaid fel br, bl, fl, fr, cr, cl, gr, sb, st, tr.
- Cyfyngwch flendio i'r llythrennau "trandep (myc)" i ddechrau.
- Wrth roi geiriau mewn i grwpiau ar gyfer rhestrau, rhowch eiriau gyda'r un patrwm o lythrennau gyda'i gilydd lle mae hynny'n bosib.
- Gall chwaraeon fod yn ddefnyddiol wrth ddysgu sillafiadau.
- Peidiwch â phoeni'n ormodol am reolau sillafu.




## Geiriau Aml-Uchel Cymraeg

Dyma'r geiriau a ddefnyddir yn fwyaf aml mewn darllen ac ysgrifennu.

| | | | |
|---|---|---|---|
| a | ac | adref | aeth |
| allan | am | ambell | amser |
| ar | arall | aros | babi |
| bach | beth | bob | bod |
| brawd | bwyd | bydd | byw |
| cadw | cae | canu | car |
| cath | ceffyl | ci | coch |
| coed | cysgu | chwaer | chwarae |
| dad | darllen | dau | diolch |
| dod | drws | dy | dyma |
| dyn | edrych | ei | eisiau |
| eistedd | enw | eto | fferm |
| fel | fi | fy | fyny |
| gallu | gan | glas | gwaith |
| gweld | gwely | gwneud | gyda |
| hefyd | helpu | hi | hoffi |
| i | ie | lawr | llun |
| mae | mam | mawr | melyn |
| mewn | mynd | na | nhw |
| ni | oedd | oes | ond |
| os | pêl | pen | plant |
| pob | pobl | rydw | rhai |
| rhedeg | rhoi | siop | sydd |
| te | teledu | tri | tro |
| tŷ | un | wedi | wedyn |
| weithiau | wrth | y | ydw |
| ydi | yma | yn | yna |
| yno | yr | ysgol | |

